

# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 01

Yn rhad ac am ddim

Ebrill 2026



## Wedi croesi trothwy'r Gwanwyn

### Y Gwanwyn wedi Cyrraedd

gan Rob Evans

Ia, mae'r gwanwyn wedi cyrraedd a'r adar yn canu'n uchel yn y bore. Yma mae'r biniau sbwriel ac ailgylchu'n cael eu casglu ar fore dydd Iau ac am chwarter wedi chwech dw i'n gorfod mynd allan a rhoi'r bagiau ar y pafin. Roedd yr adar yn creu twrw mawr heddiw, na nid twrw mawr ond roedden nhw'n canu'n uchel.

Croeso i'r gwanwyn!

Mae gen i bin compost tu ôl i'r garej ac roedd yr amser wedi dod i wagio traean o'r llwyth felly, agor y drws yn y gwaelod a rhawio'r pridd du llawn pryfed genwair i'r ferfa. Tra o'n i'n gwneud hyn ro'n i'n clywed

y robin goch yn canu, ac yn reit agos. Edrychais i fyny a dyna ble oedd o ar ben y ffens ac yn siarad efo fi. Y peth nesaf roedd o wedi glanio ar ochr y ferfa. Gadewais i'n dawel er mwyn iddo gael y cyfle i fwydo ei hun. Mae'r hen robin yn dipyn o gymeriad a does dim llawer o ofn ganddo.

Wrth i'r misoedd cynhesu byddaf yn eistedd tu allan yn mwynhau'r gwres a'r canu a byddai'r robin goch yn dod i'r golwg. Yn araf bach byddai'n dod yn nes tan iddo wneud naid fawr a sefyll ar y patio, mae'n sythu arnaf efo'i ben yn pwyso ar yr ochr chwith. "Pwy ydy'r dyn yma?" Wedyn mae ei ben yn pwyso ar yr ochr dde a dydy hynny ddim yn ateb



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ei gwestiwn chwaith. Dw i'n trio esbonio pwy ydw i a dw i'n cael y teimlad ei fod yn gwybod mwy o Gymraeg na Saesneg. Mae'n tueddi siarad yn ôl efo fi pan dw i'n siarad Cymraeg.

Clyfar ynte!

Bore 'ma roeddwn i wedi mynd i nôl rhywbeth o'r rhewgell yn y garej ac roedd y dryw yn sefyll ar ben y ffens yn canu. Mae gan y dryw gân reit hir a reit ar y diwedd mae'n gwneud ymdrech fawr, gymaint fel byddech chi'n meddwl bydda fo'n syrthio'n ôl ar ei gefn. Ond y tro yma roeddwn i'n lwcus iawn i'w weld o'n canu ac nac ydy, dydi o ddim yn syrthio'n ôl o gwbl. Ffwrdd â fo wedyn i ganu yn rhywle arall yn union fel minstrel grwydrol.



Am ryw reswm dw i'n deffro a chodi am 5.00 bob bore a thra bod chi yng nghanol eich breuddwydion mae llawer o bethau hyfryd yn mynd ymlaen tu allan.

Ffordd arbennig iawn i ddechrau eich diwrnod!

## Dydd Gŵyl Dewi yn Southgate

gan Martin Jones

Ar ddydd Mawrth y 3ydd o Fawrth cynhaliwyd dathliad Dydd Gŵyl Dewi grŵp Southgate yn Siop Coffi'r Tri Chlogwyn. Wrth gwrs, rydw i'n gwybod taw 1af o Fawrth ydy Dydd Gŵyl Dewi, ond penderfynon ni gwpl o flynyddoedd yn ôl y byddai'n well cynnal ein dathliad ar ddydd arferol ein cyfarfod wythnosol. Gyda llaw, roeddwn i wedi bod yn edrych ymlaen at ein cyfarfod wythnosol yn cyd-daro â Dydd Gŵl Dewi ymhen dwy flynedd ond rydw i newydd sylweddoli taw blwyddyn naid fydd 2028. Hyn yn golygu bydd yn rhaid i ni aros tan 2033 i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y union ddydd!

Eleni daeth 22 ohonon ni i'r siop coffi. 15 o grŵp Southgate, 5 o grŵp Newton, a ddwy o westai. Dechreuodd y dathliad gyda detholiad hyfryd o ddanteithion, gan gynnwys picau ar y maen a bara brith, ac i'r rhai gyda gofynion dietegol arbennig, cacennau fegan a heb gluten - popeth yn flasus iawn. Gwledd go iawn - a dim

syndod bod galw am focsys i fynd â beth oedd heb ei fwyta adre.

Wrth gwrs dydy hi ddim yn bosib dathlu Dydd Gŵyl Dewi heb ganu, felly, ar ôl bwyta, amser i rannu'r taflenni caneuon a chodi'r to. Calon Lân i ddechrau, wedi'i dilyn gan Sosban Fach, Ar Lan y Môr, ac i orffen yr anthem genedlaethol, pob un wedi'i chanu gydag angerdd - a chyda tipyn o help gan rhai o gwsmeriaid eraill y siop coffi!

Prynhawn llwyddiannus iawn - diolch yn fawr i bawb am ddod, i'r staff am eu gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar, ac i Jamie, perchennog y caffi, am ei gefnogaeth barhaus i'n grŵp â'r iaith Gymraeg.

## Dydd Gŵyl Dewi yn Newton

gan Rob Evans

Roedden ni, yn Newton wedi penderfynu dathlu ar y dydd Mercher cyn Dydd Gŵyl Dewi ac wedi gwneud hynny gyda chwis arbennig o dda a phicau ar y maen a oedd hefyd yn arbennig o dda. Vanessa oedd yn gyfrifol am y picau felly rhowch gymeradwyaeth i Vanessa. Blasus dros ben, diolch yn fawr Vanessa.

Ar ôl i ni orffen y picau roedd yn amser i ni gael y cwis. Roedd pob cwestiwn i'w wneud â Chymru ac roeddwn i'n disgwyl pethau mawr oddi wrth ein haelodau - dim pressure felly!

Roedd tair rhan i'r cwis ac wyth cwestiwn i bob rhan - trafndiaeth, iaith a gwaith. Yn fy marn i roedd y cwestiynau yn hawdd iawn, i fod yn onest roeddwn i'n gwybod yr ateb i bob un o'r cwestiynau. Ond well i mi ddim brolio gormod, wedi'r cwbl fi oedd wedi gosod y cwestiynau.


Yn y diwedd, ac i brofi nid yn unig bod hi'n gallu gwneud picau ar y maen ardderchog mae hi hefyd yn gwybod ei stwff, Vanessa oedd wedi ennill. Da iawn unwaith eto Vanessa!

Dyn ni'n llenwi hanner yr ystafell a'r hanner arall yn cael ei llenwi ganddyn nhw sydd newydd orffen eu Tai Chi. Felly roedd rhaid i mi weiddi'r cwestiynau achos bod nhw yn wneud gormod o sŵn. Tu ôl i mi glywais rywun tu ôl i mi'n dweud "They're always noisy!" Ofnadwy ynte a ninnau mor dawel bob tro!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf -rob@wennol.cymru

## Welsh Roots and Branches

gan Gareth Jones



Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers pum mlynedd a dw i wedi cael hi'n anodd cofio'r holl eiriau dw i wedi dysgu. Doeddwn i ddim yn deall y mechanics – sut oedd y geiriau yn cael eu hadeiladu.

Ces i 'foment bwlb golau' yn ystod tymor yr haf wrth i ni orffen Uwch 2. Dywedais i wrth ffrind da, Pamela, bod syniad gyda fi i greu tudalen ar gyfer bob gair cyffredin gyda bôn yn y canol ac wedyn ychwanegu pob gair a oedd yn tyfu o'r gair yna. Canlyniad!

Ro'n ni wedi fy nghyffro'n iawn wrth sylweddoli baswn i'n gallu adeiladu fy ngeirfa yn

gyflym! Pan o'n i'n hymweld â fy ffrind Pamela yn fis Awst llynedd nes i gyfarfod ei ewythr, Phil Stone. Mae Phil yn diwtor Dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Siaradon ni am y syniad a ddywedodd Phil wrthon ni fod Gareth Jones wedi ysgrifennu llyfr o'r enw "Welsh Roots & Branches©". Esboniodd Phil fod Cymraeg fel Lego©.

Yn Gymraeg mae'r deilliadau yn cael eu creu gan y defnydd o ragddodiad (prefixes), ôl-ddodiaid (suffixes) neu eiriau cyfansawdd (yn cynnwys dau neu fwy o eiriau bôn), fel esbonio yn y rhagair gan Gareth Jones). Gwreiddiadur (directory of root words) yw'r llyfr nid geiriadur.

Dw i'n ddiolchgar i ffrindiau da, Pamela Davies, Phil Stone, Rob Evans a Paige Morgan ar gyfer rannu fy mrwdfrydedd ac ymuno â fi i eisiau rhannu llyfr arbennig iawn gyda phawb. Ac wrth gwrs, heb anghofio fy arwr, Gareth Jones ar gyfer y llyfr arbennig, Welsh Roots & Branches© gan Gareth Jones!

Mae'r llyfr yma yn rhy bwysig i'w anwybyddu!

Nawr, dw i'n dangos i chi enghraifft ar gyfer y mis hwn:

<b>Llaw (dwylo) f = hand</b>		
<b>o law i law</b> = <i>second-hand</i>		
<i>curo = to beat</i> <b>curo dwylo</b> = <i>to applaud</i>	<i>llaesu = to relax, to slacken</i> <b>llaesu dwylo</b> = <i>to slacken off, to flag</i>	<i>ysgwyd = to shake</i> <b>ysgwyd llaw</b> = <i>to shake hand(s)</i>
<i>de f = right side</i> <b>deheulaw</b> = <i>skilful</i>	<i>ger = near</i> <b>gerllaw</b> = <i>near at hand, hereabouts</i>	<i>gwag = empty</i> <b>gwaglaw</b> = <i>empty handed</i>
<b>hylaw</b> = <i>handy</i>	<b>anhylaw</b> = <i>unskilful, awkward</i>	<b>llawio</b> = <i>to handle</i>

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

## Harddwch, Hanes a Hud

gan Y Donk Gwyddelig



Mae llawer o leoedd anhygoel yng Nghymru, cymoedd dwfn, mynyddoedd tal, afonydd gloyw a thraethau aur. Mae'n bron yn amhosibl dewis un lle dros bob man arall, fel gofyn i rieni ddewis eu hoff blentyn. Ond hyd yn oed gyda'r dasg anodd hon, mae un lle, un lle arbennig, wedi bod yn codi fy nghalon a rhoi mwynhad i fi bob tro dw i'n mynd yno - Rhosili.

Mae harddwch ysgubol llethrau Bryn Rhosili yn rhoi cefndir perffaith i dair filltir o dywod aur ym mlaen golygfa ddramatig Pen Pyrrod, mae'n symud yr enaid.

Mae hanes ym mhob man, o'r hen Gaer Oes Haearn, trwy'r caeau canoloesol, heibio gweddillion trist llong Helvetia sy'n tanio fy nychymyg.

Gyda'i gilydd, mae'r harddwch a'r hanes yn creu hud arbennig wedi dod â mi yn ôl i Rosili dro ar ôl tro ers bron i 50 mlynedd.

*Nodyn: Dach chi'n gwybod beth maen nhw'n dweud - "Dyfal Donc a Dyr y Garreg" ynte a dw i'n gwybod bod James Hickey wedi bod yn gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf. Braff iawn yw ddeall bod o wedi gwneud mor dda! Da iawn James!*



## Ruth Connor

Helô, Ruth dw i. Dw i'n dod o Ben-y-Bont ar Ogwr yn wreiddiol ond dw i'n byw yn ne Sir Rhydychen rŵan. Gwnes i ddim dysgu Cymraeg pan o'n i'n blentyn ond dw i'n dysgu rŵan. Mi wnes i ddechrau dysgu efo SSiW ac wedyn efo'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Mae gen i fab o'r enw Liam. Mae o'n wyth oed ac mae o'n dysgu Cymraeg efo Ysgol Sadwrn. Mae Ysgol Sadwrn yn ysgol eithaf newydd sydd yn dysgu Cymraeg i blant dros y byd. Yn nosbarth fy mab mae'r plant yn dod o Dwrci, Hong Kong a Ffrainc. Hefyd, mae fy mab yn dysgu Cymraeg yn y car efo app Say Something in Welsh Auto Magic ar fy ffôn.

Ym mis Chwefror, dan ni'n mynd i Langrannog am Benwythnos Teulu i ymarfer a dysgu mwy o Gymraeg. Mae fy mab yn hoffi Martyn Geraint a Tudur Phillips yn Llangrannog. Mae Martyn Geraint, diddanwr plant, yn ddoniol iawn! Mae o'n canu "Siarad Cymraeg fel Majic", cân fachog iawn! Hefyd, mae Tudur Phillips yn dalentog iawn. Mae o'n dysgu dawnsio gwerin a dangos ei dalent yn ddawns y gloesen. Mae gynno fo record y byd dawns y gloesen. Dw i'n argymhell Penwythnos Teulu Llangrannog yn fawr iawn.

## Diwedd y Gaeaf

gan Niall Evans

Mae mis Mawrth yn fis diddorol bob blwyddyn. Ddoe roedd hi'n oer, heddiw mae hi'n bwrw glaw ac yfory bydd hi'n boeth iawn.

Mae pobl yn newid hefyd. Ddoe roedden nhw'n gwisgo côt fawr, heddiw maen nhw'n dewis siwmpwr ac yfory crys T.

Ac mae llawer o bethau i weld mis Mawrth.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Hiraeth

gan Jane Hooper

O ble dych chi'n dod? Ble dych chi'n byw?

Yn Lloegr ? Medden nhw.

Dim tramgwydd- mae'n gyfle!

Dw i wedi bod yn paratoi am y foment hon fy  
holl fywyd

Gwrandewch! Unwaith ac am byth.

Dw i'n dod o wlad y gân, lle mae'r afonydd yn  
canu

Ymhlith y mynyddoedd duon.

Lle mae ffynhonnau'n byrlymu o gopa'r Wyddfa

I lawr llethrau niwlog.

Rhywle ble mae Haf yn dangos yn falch ei  
sgertiau gwyrdd,

Lle mae cae, llawn dop o lus ag eithin,

Yn llenwi'r awyr ag arogl pinafal finiog.

Dw i'n dod o wlad ble mae'r Hydref yn datgelu  
ei phasiant o bydredd

Sy'n mynd heibio ei hanrheg wlyb, ddrewllyd a  
llym.

Croeso i law gaeaf!

Ond nid glaw yn unig, ydyn!

Mae hi'n dechrau pigo, dywedwn, gwllith, glaw  
mân, tresio bwrw neu

fel hen wragedd a ffyn!

Dim ots, mae haul yn gwenu yn fy nghalon. Mae  
hiraeth yn fy nghadw'n gynnes.

Ein hiaith yng nghalon Cymraeg - hen a  
chyfoethog

yw arlwy pob cartref Cymreig o'r de i'r gogledd.

Wedyn, dyn ni'n aros am egin gwyrdd y  
Gwanwyn

Pan mae'r eirlysiau yn nodio o dan yr eira,  
Ffres ag eiddil.

Croeso i Gymru sydd ar yr arwydd ar y bont.

Bob tro yn codi fy nghalon.

Ac unwaith eto dw i yma lle gallaf sgrechian  
gyda'r barcudiaid coch ar gopa Pen-y-fan

Ar fy mhen fy hun yn llwyr.

Ac eithrio'r defaid sydd yn fy nabod i

Maen nhw'n brefu croeso nol i mi unwaith eto.

## Y Ferch o Iwcrain



Ar y 4ydd o fis Mawrth cawsom ni gwmi  
Mariia Yarova yn ein grŵp yn Newton. Mae  
Mariia o Iwcrain, erbyn hyn mae hi'n aelod o  
Ysgol Bishop Gore yn Abertawe. Mae hi'n dysgu  
Cymraeg ac roedd hi wedi cynnig adrodd darn o  
farddoniaeth i ni.

## Fy Nghartref

Yn y cysgod, dan y bryn, mae muriau gwyn

A tho o gerrig lle mae'r tân yn gynnes iawn

A sŵn y dŵr yn llon a chynnes

Yma mae fy nghalon, ym mro fy mebyd

Cartref glos Cymru annwyl, lloches berffaith

Yn y cysgod, dan y bryn.

Ia, mae hi, ei chwaer a mam yma ers  
ddechrau'r rhyfel yn eu gwlad. Mae hi'n  
mwynhau bod yn yr ysgol, yn aelod o'r côr ac mi  
fydde hi'n cymryd rhan yn ddrama'r ysgol yn yr  
haf 'We will Rock You.' Mae hi hefyd wedi  
ymuno â Chôr Acapela.

Wnaeth hi adrodd y farddoniaeth o'i chof ac  
yn llawn hyder.

Roedd yn bleser i gael ei chwmi ac mae pawb  
yn dymuno'r gorau iddi hi a'i theulu.

Croeso i Gymru!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Teisen Ynys Môn

gan Maria Lalic



Roedd pawb arall yn bwyta picau ar y maen ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant ond nid fi. Gwnes i deisen Ynys Môn - blasus iawn! Dyma'r rysâit

100g margarin  
100g siwgr gwyn  
1 llwy fwrdd triog du  
200g blawd codi  
50g cyrens  
50g syltanas  
2 wy  
1 llwy fwrdd o laeth.

Rhoi popeth mewn powlen a chymysgu'n dda gyda llwy bren. Iro tun a rhoi'r cymysgedd ynddo. Crasu am 30 -40 munud am 180°C.

Defnyddiwch tun crwn 19cm

*Roedd y rysâit yma yn edrych mor hawdd a hefyd o achos yr enw, nes i roi fy ffedog ymlaen a chreu fy nghacen fy hun. Roedd wir yn hawdd i wneud ac yn edrych yn dda pan nes i dynnu allan o'r popty. Nes i adael am awr cyn i mi ei drio.*

*Roedd yn ysgafn ac yn flasus dros ben. Mae'r triog yn rhoi blas fel sinsir ar y gacen ond nid blas cryf. Wrth gael brathiad dach chi'n cael dipyn o 'crunch' ac wedyn dach chi'n cyrraedd ysgafnder y canol a'r ffrwyth. Roeddwn i wir yn gorfod rheoli fy hun neu mi fyddai wedi bwyta'r cwbl lot. Roeddwn i'n mynd i gael crymbl afalau fel pwddin nes ymlaen ond benderfynais gael sleisen arall efo iogwrt.*



*Digon i wneud i fysau eich traed cyrlio!*

*Yn wir mae mor hawdd i'w wneud!*

*Gadewch i mi wybod sut mae eich cacen chi yn blasu - Rob*

## Pyllau Glo yn Fife

gan Carol Wright



Lochore

Ces i fy magu yn Fife yn yr Alban. Pryd hynny, roedd llawer o byllau glo yn yr ardal, fel yn Ne Cymru. Dw i'n cofio llawer o domennu slag yn difwyno'r cefn gwlad. Roedd nifer o dadau fy ffrindiau yn gweithio fel glowyr - roedd ein cymydog yn dod adre o'r pwll glo gydag wyneb du, achos roedd hi'n anodd iawn cael gwared â'r llwch glo. Dim ond ddydd Sul roedd wyneb glân gyda fe.



Does dim pwll glo nawr yn Fife, ac mae'r tirlun yn edrych yn bert iawn. Beth bynnag, mae olion hen byllau glo, e.e. mae'r hen bwll glo mawr Mary Pit wedi cael ei drawsnewid i barc gwledig Lochore Meadows gyda llyn eitha' mawr ble roedd y pwll. Mae pobl yn hwylio ac yn padlffyrddio yno heddiw. Ond mae'r hen dŵr tŷ olwyn a rhai o'r tryciau a gludodd y glo wedi cael ei cadw, gyda byrddau hysbysiad i esbonio'r hanes.

Mae'n bwysig iawn i'w cof am ein hanes diweddar, er mwyn i'r genhedlaeth nesa cael dysgu amdano.

### Reading

As I've said before reading is a very important part of learning. In your lessons you get the rules but reading gives you the practical. Get hold of a children's book to start with and work up as your studies progress.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Gemau Olympaidd y Gaeaf

gan Katherine Hardy




Roedd Gemau Olympaidd y gaeaf yn fy atgoffa o drip ysgol. Pan o'n i'n bymtheg oed es i ar daith sgïo i Chambery gyda'r ysgol, tre fach yn yr Alpau Ffrainc. Dyma oedd fy ngwyliau tramor cyntaf.

Roedd yn daith hir ar y trê'n o Lundain i Dover, ar y fferi o Dover i Calais ac yna ar y trê'n eto i Chambery. Dw i'n meddwl bod y daith wedi cymryd y diwrnod cyfan, dw i'n cofio teimlo'n flinedig iawn. Doedd dim Eurostar yn y dyddiau hynny.

Arhoson ni yng ngwesty ac roedd y bwyd yn rhyfedd i mi. Dw i'n cofio rannu ystafell wely gyda merch arall.

Gawson ni wers sgïo bob bore, roedden ni'n gallu sgïo yn y prynhawn neu fynd i'r llawr sglefrio. Mwynheais i sglefrio iâ yn fawr iawn. Aethon ni i'r siopau un prynhawn i brynu cofroddion i'w cymryd adre. Mae cloch buwch fach gyda fi yn fy nhŷ o hyd.




Ar ddiwedd yr wythnos roedd rhaid i ni sefyll prawf sgïo. Enillon ni fedal efydd a thystysgrif os gwnaethon ni basio'r prawf. Mae medal a thystysgrif gyda fi o hyd.

Fues i erioed yn sgïo eto ond dw i wedi gwneud sglefrio iâ llawer gwaith.

What about sending your little bit for this page? Writing helps you on your journey of learning Welsh. You don't need to be perfect! Send it to me:

rob@wennol.cymru



### The best book for you to start with!

I have read hundreds of Welsh books, ever since I was about 35 and desperate to relearn my Welsh. Just think - a 35 year old man reading books by T Llew Jones, books of smugglers, highwaymen and pirates. The learning was slow but it found its wings when I went on a creative writing course at Gregynog in Powys.

I became a tutor and really enjoyed the thrill of teaching. In the second year the curriculum included Bywyd Blodwen Jones by Bethan Gwanas. We would spend the last 20 minutes of the class reading this very funny book and by the end of the first term I realised that the class had secretly gone on to read the whole book. That was a real eye opener! Reading a book alongside the class really put progress on skates.

I came across this book recently and I immediately realised this was the ideal book as a starter. Reading this book at home in conjunction with the class helps you to quietly learn vocabulary, mutations, tenses and sentence construction. It is brilliant and is on sale for £5.99 at your local Welsh book shop or the publishers

[www.carreg-gwalch.cymru](http://www.carreg-gwalch.cymru)

For those of you in the south there are only 19 north Wales words and their southern equivalents are given!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Jane Cumming

Achos dw i'n byw yn Lloegr rhaid i mi gymryd pob cyfle i siarad Cymraeg. Dw i'n edrych allan



ym mhob man am siaradwyr Cymraeg. Roeddwn i'n siarad am hynny efo fy ffrind sy'n hoyw. Mi ddwedodd o wrtha i am ei "Gaydar" sy'n ffordd anymwybodol i adnabod os mae rhywun arall yn hoyw hefyd. Felly mi wnes i feddwl am sut gallwn i wella fy "Cymraeg-Dar"

Mae sawl ffordd i adnabod siaradwyr Cymraeg. Mae rhai ohonyn nhw yn amlwg iawn er enghraifft os dach chi'n eu clywed nhw'n siarad Cymraeg. Efallai maen nhw'n gwisgo crys T neu het Gymreig. Mae'n bosib mae gynnyn nhw fathodyn Cymru ar eu car ond dydy hynny ddim yn rhoi sicrwydd. Efallai maen nhw newydd brynu'r car oddi wrth Gymro neu Gymraes. Mae enw Cymraeg yn glwi weithiau. Yn aml mae acen Gymreig yn ffordd dda i adnabod bod rhywun yn Gymro.

Felly os dw i'n amau bod rhywun yn Gymro, be nesa? Wel, bydd rhaid i mi drio siarad â nhw. Dw i'n trio bod yn ddewr ac yn gofyn "Dach chi'n siarad Cymraeg?" Yn aml mi fydda i'n cael fy ymateb efo wyneb gwag ac wedyn dw i'n gwybod nad ydw i wedi llwyddo. Yn achlysurol mae pobl yn anghwrtais ac yn amharchus tuag at Iaith y Nefoedd. Llynedd welais gar wedi'i barcio yn yr un lle bob dydd, mi wnes i adael nodyn ar y car i ofyn a ydyn nhw isio siarad Cymraeg. Yn anffodus ges i ddim ateb ganddyn nhw.

Dw i wedi bod yn llwyddiannus sawl gwaith. Mae'r dyn ar y ddesg talu yn Asda yn Rugby yn siarad Cymraeg, mae'r meddyg ifanc newydd yn y feddygfa hefyd. Fy llwyddiant gorau oedd ar y bws rhwng yr awyren a'r adeiladau ym maes awyr East Midlands pan ges i sgwrs efo teulu



Cymraeg o'r Trallwng. Ro'n i'n siomedig mod i ddim wedi cyfarfod nhw ar yr awyren, pedwar awr ar yr awyren yn siarad Cymraeg - byddai wedi bod yn grêt.

Felly os dach chi'n cael eich croesawu gan ddynes wallgof yn y stryd sy'n gwisgo bathodyn "Dw i'n dysgu Cymraeg" ac yn gwisgo ei sanau Cymreig lwcus, mae'n debyg mai fi ydy hi ac mae siawns i ni ddod i nabod ein gilydd ac yn dathlu bod fy "Cymraeg-dar" yn gweithio!

## Pam dw i'n dysgu Cymraeg

gan Ruth Kelly

Dw i wedi ceisio ateb yr holiad yma o'r blaen, ond mae fy nghyfeillion yn gofyn o hyd. Wedi'r cwbl dw i'n dod o Loegr a dw i'n byw yn Dorset. Dyw'r ateb i'r holiad ddim yn amlwg, tybiwn i. Gadewch i fi gael tro arall.

Pan roeddwn yn yr ysgol wnes i ffaelu Ffrangeg "lefel O". Mae hyn wedi fy nghythrudo erioed ac am flynyddol meddyliais roeddwn i'n dda i ddim ar ran ieithoedd. Nid yw'n beth da i ddal meddyliau mor ddiystyriol, felly yn fy mhumedgau dechreuais feddwl y dylwn i wneud rhywbeth yn ei gylch, a dysgu iaith newydd.

Yn ogystal, ac yn drist iawn, mae fy mam wedi datblygu Alzheimers, ac mae pethau fel hynny wastad yn fy wneud i mi feddwl am fy nyfodol fy hunan. Oes rhywbeth galla i wneud i osgoi'r un tynged? Mae dysgu sgiliau newydd i fod i gynorthwyo adeiladu "cronfa wybyddol" sydd yn eich amddiffyn rhag dirywiad gwybyddol a gall dysgu iaith newydd fod yn arbennig o bwerus yn hyn o beth, medden nhw.

Ond y cwestiwn oedd pa un? A dweud y gwir dw i ddim yn hoffi teithiau tramor - dw i'n cael nhw braidd yn llawn pwysau. Felly, pam ymgeisio dysgu Sbaeneg, neu Eidaleg, neu Ffrangeg? Doeddwn i ddim yn gallu gweld llawer o gyfleoedd i'w defnyddio nhw go iawn.

Mae Cymru, ar y llaw arall, yn rhan o'r Deyrnas Unedig (er, ydw i'n gweld annibyniaeth ar y gorwel?) a dw i'n gallu gyrru yno mewn awr a hanner. Dw i wastad wedi dwlu ar yr hen wlad a dw i'n mwynhau ymweld â hi. Mae gyda fi cysylltiadau teuluog yng Nghymru hefyd. Mae gyda fi modryb (ar ochr fy mam) sy'n byw yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Talywain. Dyw hi ddim yn dod o Gymru ond mae ei phlant a'i hwyrion yn Gymry bellach. Ar ochr fy nhad mae'r sefyllfa yn fwy tywyll. Cafodd ei amddifadu yn y rhyfel a nag ydw i'n gwybod llawer am ei rieni ond roedd ei enw canol yn un Gymraeg a dw i wastad wedi amau bod rai cyndeidiau Cymreig gyda fe. Efallai y bydda i'n darganfod mwy amdano un o'r dyddiau 'ma.

Ar ben hyn oll mae gyda fi ddiddordeb ers amser maith mewn hanes hynafol. Pan roeddwn i'n ifancach gwnes i weithio fel archeolegydd gwirfoddol pob haf, yn arbennig ar safleoedd Oes Haearn. ac mae'r Gymraeg wedi datblygu o'r iaith yr oedd yn cael ei siarad ym Mhrydain cyn gwnaeth y Sacsoniaid ein goresgyn. Mae'n hyfryd meddwl am y bobl oedd yn byw yn yr hen gaerau bryn yna yr oeddwn i'n gweithio arni yn sgwrsio yn y Gymraeg.... neu rywbeth tebyg. Mae llawer o gofodeiliau hynafol yng Nghymru hefyd, wrth reswm!

Felly, dyna ni. Mae dysgu Cymraeg yn ymestyn fy abledd a falle yn helpu fi amddiffyn fy ymennydd. Mae'n cynrychioli cysylltiad gyda fy hanes fy hunan, a'r hanes o'r ynysoedd hynafol yma, ac mae'n fy wneud i'n hapus. Dw wrth fy modd yn siarad Cymraeg! Dylai pawb ei ddysgu, dw i'n credu.

## Albwm bob Wythnos

gan Anthony Morgan



Dw i byth yn gwneud addunedau Blwyddyn Newydd. Fel arfer, beth bynnag. Pwy sy'n dal atyn nhw? Wel, wnes i. Unwaith. Yn 2020, heriais i fy hun darllen pum deg llyfr cyn diwedd y flwyddyn a llwyddais i ddarllen pum deg pump. Roedd ffordd dda i fi ddarganfod awduron a llyfrau faswn i ddim wedi darllen heblaw.

Dw i wedi trio ehangu fy ngorwelion cerddorol hefyd, yn enwedig dros y blynyddoedd diweddar. Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, agorodd byd diwylliannol newydd o fy mlaen a ro'n i wrth fy

modd gyda chymaint o gerddoriaeth anhygoel. Ond, weithiau, rhaid i fi gicio fy hun am beidio gwranddo ar yr un artistiaid a chaneuon tro ar ôl tro.

Wedyn, ces i fy ysbrydoli gan Molly Palmer, DJ Radio Wales a chyflwynydd S4C, sy wedi gwneud adduned Blwyddyn Newydd i wrando ar un albwm y diwrnod drwy'r flwyddyn. Chwarae teg iddi hi ond mae un y diwrnod yn ormod i fi, felly penderfynais geisio am un yr wythnos. Dylai fod digon hawdd, onid e?

Wel, mae fe wedi bod hyd yn hyn achos dw i wedi gwranddo ar un deg saith albwm mewn tua phedwar wythnos. Dw i byth yn gwneud pethau gan ei hanner. A wna i ddal ati drwy weddill y flwyddyn? Gawn ni weld.

Yn y cyfamser, dw i wedi mwynhau llawer o gerddoriaeth ardderchog gan artistiaid cyfarwydd a newydd i fi. Mae gormod o albymau i siarad am bob un, ond rhai o'r uchafbwyntiau yn cynnwys Rhwng Gwyl a Gwawr gan Buddug, Olew Nadroedd gan SYBS a Teimlo'r Awen gan Morgan Elwy. Cyn i fi ddechrau dysgu Cymraeg, doedd gen i ddim syniad am yr amrywiaeth o gerddoriaeth Cymraeg. Ac yn wir, do'n i erioed wedi dychmygu bod reggae Cymraeg yn bodoli.



Ro'n i'n lwcus iawn i weld Morgan Elwy yn Nhafwyl gydag Aleighcia Scott. Roedd perfformiad gwych ac yn berffaith ar ddiwrnod heulog ym mis Mehefin. Gallwn i ysgrifennu mwy am Dafwyl ond efallai mewn erthygl arall. Nôl at yr albymau.

Y syndod mwyaf i fi oedd Ein Albwm Cyntaf Ni gan Tai Haf Heb Drigolyn. Dw i'n trio cymryd tipyn o risg gyda'r albymau newydd, felly do'n i ddim yn disgwyl mwynhau popeth, yn enwedig Tai Haf Heb Drigolyn am rai rheswm. Fodd bynnag, roedd e'n albwm diddorol gyda thipyn o pync a thipyn o roc indy a llawer o afluniad gitâr. Mwynheais i'r trac Arafcore yn arbennig. Fel mae enw'r albwm yn awgrymu, dyma'r albwm cyntaf nhw ac maen nhw wedi gwneud argraff fawr yn barod, ar ôl cael eu henwebu am restr fer Gwobr Gerddoriaeth Gymreig 2025.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

O'r albwm cyntaf i'r albwm olaf a'r unig albwm hyd yn hyn gan Sais. Mae Michael Chapman yn artist hollol newydd i fi er oedd e wedi marw yn 2021, ar ôl gyrfa oedd wedi para dros bum deg mlynedd. True North wedi cael ei chyhoeddi yn 2019 ac yn dangos dylanwadau'r felan Americanaidd a'i dalent fel canwr, gitarydd a chyfansoddwr, ei lais cras dal yn gryf yn ei



saithdegau hwyr. Dw i'n bwriadu gwrandao ar fwy o'i gerddoriaeth, yn bendant.

Yn olaf, nôl i Gymru a cherddor y felan arall, sef Gwenifer Raymond o Ffynnon Taf. Dw i newydd glywed amdani hi, diolch am sioe Radio Cymru Huw Stephens, a dw i'n ffan fawr yn barod. Gwrandais ar ei thri albwm a gallwn i wrando arnyn nhw dro ar ôl tro. Mae'r dylanwad Americanaidd yn amlwg yn ei halbwm cyntaf, You Never Were Much of a Dancer gydag elfennau o werin Appalachian ac 'American Primitive', ble mae hi'n canu'r banjo yn ogystal â'r gitâr. Mae'n bosib clywed llawer mwy o'i dylanwadau Cymreig yn ei halbwm diweddaraf, Last Night I Heard The Dog Star Bark ble mae hi'n cyfuno'r felan Americanaidd gyda gwerin Gymreig ac yn dangos ei medr mawr gyda'r gitâr. Alla i ddim aros am ei halbwm nesa.

Mae Molly Palmer wastad yn dweud bod ni'n lwcus i gael gymaint o gerddoriaeth Gymreig anhygoel a dw i'n cytuno. Dw i'n edrych ymlaen at wrando ar fwy o albymau dros weddill y flwyddyn ac, yn ogystal cerddoriaeth Gymraeg, gwnaf i drïo gwrandao ar gerddoriaeth yn ieithoedd eraill hefyd.

### ★ Y Llyfrgell Genedlaethol ★

Dach chi gyd yn gwybod am ein Llyfrgell Genedlaethol ond ydych chi wedi gweld eu siop ar y we? ★

Byddech chi'n synnu!

Ar werth mae matiau diod, lliain sychu llestri, sanau, mygiau, posteri, hetiau bwced Cymru, cardiau post, canhwyllau, llyfrau (wrth gwrs) a llawer mwy. ★

Mae wir yn werth edrych ar y wefan cyn i chi ddechrau trampio o gwmpas yn chwilio am anrhegion.

★ <https://siop.llyfrgell.cymru/> ★

## Atyniad Twristaidd newydd yn Rhydychen

gan Sue Ward



Mae cynlluniau i ychwanegu llinell reilffordd a phlatfform newydd i orsaf Rhydychen. Wedyn bydd mynedfa newydd i ochr orllewin yr orsaf. Mae angen rhoi pont newydd yn lle'r bont dros Ffordd Botley ar bwys yr orsaf. Ffordd Botley yw'r brif ffordd o Rydychen i'r gorllewin.

Ym mis Ebrill 2023 gwnaethon nhw gau Ffordd Botley i wneud y gwaith. Roedd problem ar ôl problem. Gwnaethon nhw ffeindio mwy o bibellau dŵr a phibellau carthffosiaeth nag oedden nhw'n disgwyl. Roedd pibellau nwy a cheblau trydan hefyd. Roedd y bont yn eithaf isel, felly roedd rhaid iddyn nhw ostwng y ffordd. Roedd problemau gorlifo yn barod pan roedd hi'n bwrw glaw, felly roedd rhaid iddyn nhw wneud gwaith i osgoi'r broblem. Wedyn gwnaethon nhw ffeindio bwa Fictoraidd sy'n cynnal popeth. Roedd rhaid iddyn nhw aros i'r cwmnïau dŵr, trydan a nwy symud eu pibellau a cheblau. Doedden nhw ddim ar frys.

Beth am y bysiau sydd, fel arfer, yn mynd o dan y bont ac ar hyd Ffordd Botley i fynd i Witney, Swindon, Abingdon a lleoedd eraill? Roedd rhaid i'r teithwyr gadael y bws ger yr orsaf, wedyn cerdded trwy dwnnel bach, hir, o dan y rheilffordd, wedyn mynd ar fws arall. Roedd pawb yn ei alw yn "dwnnel tynged". (Tunnel of doom.) Yn ddiweddar roedd twnnel mwy, gwell, ar ochr arall y ffordd ar agor, ac roedd yr hen dwnnel ar gau. Beth am y bobl sy'n



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gyrru? Mae dal rhaid iddyn nhw ddefnyddio ffyrdd i'r gogledd ac i'r de, wedyn y ffordd osgoi. Beth am y siopau a'r busnesau ar Ffordd Botley? Maen nhw'n stryglu. Mae rhai ohonyn nhw wedi cau. Ydy pobl yn cwyno? Dych chi'n gallu dyfalu.

Nawr rydyn ni ym mis Chwefror 2026. O'r diwedd maen nhw'n barod i roi pont newydd yn lle'r hen bont. Mae'r rheilffordd ar gau rhwng Didcot a Rhydychen am wythnos. A dyma ni gydag atyniad twristaidd. Mae llwybr trwy'r orsaf er mwyn y bobl sydd yn moyn cerdded o un ochr y rheilffordd i'r ochr arall. Ac mae llawer o bobl yn mynd yno i dynnu lluniau a gweld y gwaith. Mae pobl yn dod i Rydychen i weld beth sy'n digwydd. Es i yno i dynnu llun, a wnes i siarad â dyn o le yn eithaf pell i ffwrdd sy'n tynnu llun hefyd. Doedd dim pont o gwbl pan ro'n i yno. Gobeithio byddai'r bont newydd yn barod cyn dydd Llun. Dywedon nhw bydd Ffordd Botley yn ail agor ym mis Awst. Cawn ni weld.

What about writing your story for the Wennol? It doesn't need to be long because learners at all stages want to read the Wennol.

Who knows, perhaps you would enjoy the experience!

### Gwibdaith i Lundain i weld

#### Romeo a Juliet

gan Liz Kelly



Dw i'n byw yn Swydd Caergrawnt, felly pan glywais i am gynhyrchiad o Romeo a Juliet sy'n gynnwys llawer o Gymraeg, ro'n i'n llawn gyffro. Dewisais brynu tocyn am yr un ddydd â rhywun yn fy nosbarth Dysgu Cymraeg rhithiol i. Perfformiad matinee yn Llundain. Efallai bydden ni'n gallu cwrdd â'n gilydd cyn dechrau'r ddrama?

Roedd hi'n ddiwrnod eithaf da am fis Tachwedd - tipyn bach o haul a doedd y

tymheredd ddim yn oer. Cyrhaeddais orsaf Blackfriars yn gynnar iawn - mae'n cwl i weld y Tafwys o bont Blackfriars. Es i am dro wrth ochr yr afon, heibio'r Tate Modern i'r Globe a Playhouse Sam Wanamaker, drws nesa.

Roedd digon o amser i gwrdd â'r person yn fy nosbarth cyn y cynhyrchiad. Roedd yn wych i gael paned a siarad gyda hi. Cawson ni sgwrs gyda chwpl o ogledd Cymru a oedd ddim wedi gallu prynu tocynnau yn agos atyn nhw yng Nghymru achos roedden nhw wedi gwerthu allan. Pan ganodd y gloch pum munud, aethon ni at ein seddau. Aeth fy ffrind i lefel gwahanol.

Mae'r meinciau yn atgoffa fi o eistedd mewn pabell yn yr Eisteddfod. Roedd clustog ar y meinciau ond mae'n well gyda fi sedd gyda chefn! Roedd rhaid i fi eistedd i fyny yn syth. Dw i ddim eisiau cwyno. Mae'n theatr arbennig, wedi gwneud allan o bren. Dych chi'n gallu eistedd ar unrhyw un o dair lefel. Ro'n i ar y lefel isel - mae'r ddwy arall - y pit" a'r lefel uchel. Mae'r Playhouse yn cael ei oleuo gyda chanhwyllau, sy'n pwysleisio'r effeithiau o'r theatr. Felly mae'n creu amgylch arbennig yn syth, fel gwasanaeth Plygain mewn eglwys neu ryw Beth. Roedd tipyn o ofn arna i, yn meddwl am yr holl bren yno ond sylwais i fod rhaid bod nhw wedi meddwl am hynny o flaen llaw. Maen nhw'n symud y canhwyllau lan a lawr yn aml yn ystod y perfformiad hefyd! Mae'n creu awyrgylch bywiog!

Yn ystod y perfformiad roedd 'ap Sibrwd', yn Saesneg neu Gymraeg i'ch tywys trwy'r ddrama. Ro'n i'n gwybod y byddai'n heriol iawn i ddeall iaith Shakespeare yn Gymraeg felly penderfynais gymryd mantais o Sibrwd. Ond do'n i ddim eisiau colli'r weithred i gyd! Felly tipyn bach o weld y llwyfan a thrio gwranddo wedyn darllen eto wnes i. Wythnosau ar ôl hynny, roedd tiwtor Cymraeg wedi dweud mor anodd oedd o iddi hi hefyd ond wrth gwrs roedd hi'n gallu deall pob dim, jyst roedd rhaid iddi wrando yn ofalus.

#### Sut brofiad oedd mynd i'r ddrama i ddysgwyr?

Roedd yn anodd deall llawer o'r ddrama ond doedd hynny ddim yn syndod! Do'n i ddim yn gwybod y stori yn dda iawn. Ond, fel ym mhob drama Shakespeare dw i wedi gweld, roedd yn well na o'n i'n disgwyl achos mae'r actio'n helpu deall y testun a'r farddoniaeth a dych chi'n gallu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

tiwnio mewn yn ystod y perfformiad. Roedd yr un peth gyda'r perfformiad yma. Er nad o'n i'n dilyn yr iaith Cymraeg yn dda iawn, wnes i glywed llawer o eiriau ro'n i'n gwybod. Roedd yr actio yn wych - dyna beth dych chi'n disgwyl gyda'r cwmnïau proffesiynol. Roedd y golygfeydd ymladd yn arbennig o drawiadol - dydy'r llwyfan ddim yn fawr a gyda'r canhwyllau hefyd, roedd wedi gwneud argraff fawr arna i. Roedd pawb yn siarad yn glir iawn. Roedd y gwisgoedd yn glyfar - gallwch wisgo nhw nawr neu yn y gorffennol. Ac roedd bod yn y theatr yma yn brofiad gwych. Ro'n i'n dwlu ar y tu mewn - y gwaith coed a'r bensaernïaeth yn hollol anhygoel heb sôn am y nenfwd sydd wedi'i baentio fel copi o nenfwd hardd o blasty yn yr Alban. Fel mae'n dweud, "mae'n gynhyrchiad arloesol, yn plethu'r Gymraeg a'r Saesneg. Gan archwilio'r hunaniaeth Gymreig a chynnig safbwynt newydd ar ddrama anfarwol Shakespeare."

## Atgofion Frank

gan Sara Jones

Mi ganwyd Frank ychydig flynyddoedd cyn yr ail ryfel byd. Roedd y byd yn lle gwahanol mewn sawl ffordd. Mae'n ddiddorol edrych ar yr ardal lle'r oedd Frank yn byw. Effeithiodd daeareg yr ardal ar y ffordd o fyw a swyddi pobl. Roedd yna amaethyddiaeth, chwarel gerrig, chwarel galch, gwaith brics a mwyngloddfeydd glo. Gan roedd pobl yn gweithio yn y diwydiannau hyn, nid oedd yn rhaid iddyn nhw deithio'n bell. Ychydig iawn o fysiau a threnau oedd ar gael i deithio i drefi a dinasoedd cyfagos. Nid oedd lawer o geir, roedd y rhan fwyaf o bobl yn cerdded i'w swyddi. Ond nid oedd bywyd yn y diwydiannau hyn yn dda. Yn aml roedd damweiniau yn y gwaith. Nid oedd unrhyw reoliadau iechyd a diogelwch. O ganlyniad nid oedd y llefydd gwaith yn ddiogel, felly teuluoedd a ddiodefodd.



Roedd teulu Frank yn byw ac yn gweithio mewn fferm fach a oedd yn perthyn i Gastell Y Waun. Roedd gan dad Frank geffyl a throl. Defnyddiwyd y drol i gario gwair, grawn a pheiriannau. Defnyddiodd geffyl a thrap i fynd â phawb i'r eglwys. Pan nad oedd yn yr ysgol roedd rhaid i Frank weithio ar y fferm. Bwydo anifeiliaid, wyna, godro, troi menyn a chaws, aredig, gyrru tractorau a symud ceffylau oedd rhai o'r swyddi a wnaeth Frank pan oedd yn ifanc iawn.



Hefyd cynhyrchwyd ham a bacwn ar y fferm gan ddefnyddio moch a fagwyd ganddynt. Daeth cymdogion i gasglu gwaed mochyn i wneud pwddin du. Mi gafodd Frank brofiadau da a drwg o ddydd i ddydd.

Roedd chwe blynedd gyntaf Frank yn yr ysgol dan ddylanwad y rhyfel. Roedd bomiau, cyfyngiadau bwyd, bleindiau tywyllu, masgiau nwy, ac efaciwîs yn brofiad dyddiol. Gan ychwanegu at ei broblemau, gwaharddwyd siarad Cymraeg yn yr ysgol. Siaradodd Cymraeg gartref ac yn y capel. Diolch byth ei fod yn cofio ei Gymraeg, ac yn dal i fwynhau canu emynau Cymraeg a ddysgodd flynyddoedd yn ôl.

Ychydig iawn o weithgareddau hamdden oedd ganddyn nhw. Capel ac ysgol Sul dair gwaith rhwng yr holl waith fferm ar ddydd Sul. Roedd trip capel i'r Rhyl ar fws wedi'i llogi unwaith y flwyddyn. Daeth dŵr o ffynnon ac yn ddiweddarach o bibell sefyll ar y stryd. Defnyddiwyd lampau olew a pharaffin ar gyfer goleuo.



Roedd afalau, damson, gellyg, rhiwbob, winwn a thatws yn cael eu tyfu yn yr ardd. Roedd blawd, siwgr, te, olew, menyn, caws, sebon a phopeth arall nad oedd yn cael ei gynhyrchu'n lleol yn cael eu dogni.

Mi adawodd Frank yr ysgol pan oedd e'n 14eg oed heb unrhyw gymwysterau academaidd. Er gwaethaf yr holl galedi, cafodd Frank gymwysterau a sgiliau ar gyfer cyflogaeth ddefnyddiol gydol oes.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gydag atgofion sur a melys mi oroesodd fyf mor wahanol i'w wyrion heddiw. Mae eu byd nhw yn ddwys ac yn gyflym. Tybed a fydd eu byd yn newid cymaint yn eu hoes. Pwy a wŷr?

### Learning a Language

In your childhood you learned a language without thinking, you didn't know the meaning of words like 'verbs' and 'nouns' but you still marched on and gradually perfected your first language. Clever? No, not particularly.

Learning grammar in a class without a good balance of the practical just fills your brain with theory. You need to use your new language from the very beginning. Join a group of Welsh learners in order to practise conversations. Write something about yourself and send it to The Wennol. Read a book that is at a suitable level and don't worry about understanding. It will come, I promise!

## Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown



### Rhan 1

Roedd e'n mynd i fod yn daith gerdded syml. Ei 113eg Munro. Dim ond 169 i fynd. Roedd y mynydd hwn yn eithaf anghysbell ond ni ddylai hynny achosi problemau, wedi'r cyfan, roedd e'n brofiadol ac roedd e wedi paratoi'n drylwyr. Roedd gyda fe'r offer cywir i gyd, digon i ddelio ag unrhyw argyfwng. Y cynllun oedd, cael lifft gan ei wraig i'r pwynt mynediad agosaf, cerdded 4 milltir i'r copa cyntaf, yna cymryd y cyfeiriant a cherdded dwy filltir arall i'r ail. Yn olaf, cerdded 3 milltir arall i'r man cyfarfod lle byddai ei wraig yn aros amdano fe mewn gilfan ar ochr y ffordd adref ar yr amser cytunedig. Dim anawsterau rhagweladwy.

Ond y bore hwnna roedd rhywbeth yn ei gorddi. Nid ynglŷn â'r daith ei hunan. Byddai'n siŵr o fod yn hyfryd. Diwrnod braf tu fas yn y mynyddoedd. Cyfle i fwynhau'r gefnwlad gyda her fach i dramwyo dros y rhostiroedd agored. Dim hyn oedd ei bryder. Roedd e wastad wedi mwynhau mynydda ers ei blentyndod. Y dynfa oedd y cyfle i grwydro lleoedd gwyllt anghysbell a mwynhau eu harddwch. Felly, beth oedd yn achosi'r broblem heddiw? Nid y daith ei hunan, ond a oedd o'n gwneud hyn dim ond i'w dicio oddi ar y rhestr? Roedd fel pe bai ei fwynhad wedi dod yn faich. Roedd e'n teimlo o dan bwysau i gwblhau'r rhestr, i wneud cynnydd. Roedd yn faich hunanosodol ond yn cael ei atgyfnerthu gan ei ffrindiau yn y clwb dringo a fyddai bob amser yn gofyn 'faint wyt ti wedi'i wneud nawr 'te pryd bynnag y bydden nhw'n cyfarfod yn y dafarn?

### Rhan 2

Wrth i'w wraig ei adael a mynd ar ei ffordd, dechreuodd roi'r meddyliau hyn tu ôl iddo. Roedd ar ei ben ei hun nawr felly amser i ganolbwyntio ar y dasg o'i flaen. Cipolwg cyflym ar y map i gadarnhau'r man cychwyn ac yna byddai ar ei ffordd. Yna yn y pellter gwelai ysgwydd y mynydd yn ymestyn oddi wrtho i'r niwl. Hefyd y llwybr amlwg a oedd ei fan cychwyn. Amser i ddechrau.

Roedd hi wedi bod yn dywydd sych ers tro felly roedd y llwybr yn sych hefyd wrth iddo gerdded dros y rhos. Roedd hyn yn anarferol yn y rhannau hyn. Gwenodd wrtho 'i hun wrth iddo feddwl am rai o'i brofiadau blaenorol ar rosydd yr Alban. Aeth y llwybr yn serth ar ôl cyrraedd yr ysgwydd ac yn ei flaen gallai weld y niwl ar y gyfuchlin 600m. Roedd ei fynydd yn 1220m o uchder felly byddai yn y niwl am tua 400m neu ddwy awr cyn cyrraedd y copa. Nid oedd hynny ynddo'i hun yn broblem ond wrth gwrs byddai'n siomedig colli'r golygfeydd. Serch hynny, byddai tic arall ar ei restr.

Y peth yr oedd yn ei blesio am fod ar ei ben ei hun yn y mynyddoedd oedd yr unigedd. Siŵr ei fod wedi mwynhau'r her ond roedd yn fwy na hynny. Ar eich pen eich hun fel hyn roedd yn bosib gweld i mewn i'ch hunan, eich cryfderau a'ch gwendidau. Ond yn fwy na hyn roedd cyfle i lonyddu'r meddwl ac archwilio'r tawelwch oddi mewn.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Ydych Chi'n Cofio?

### Mis Mawrth 1969?

gan Patrick Soper



Yr oedd yng nghanol y 1950au y dechreuodd peirianwyr awyrennau o Ffrainc a Phrydain gydweithio i ddatblygu ac adeiladu awyren y dyfodol i deithwyr. 'Concorde' oedd ei henw wedi ei bweru gyda phedwar peiriant 'Olympus' gan Rolls Royce byddai yn haneru'r amser i hedfan dros Fôr yr Iwerydd gan hedfan ar ddwywaith cyflymder sain.

Mynegai nifer o gwmnïau awyrennau ddiddordeb mewn gweithredu'r awyren chwyldroadol hon. Amcangyfrifwyd y byddai cost cynhyrchu yn £70 miliwn, a dechreuwyd gweithgynhyrchu yn 1965.

Dim ond pedwar blynedd yn ddiweddarach, y 2il mis Mawrth 1969, gwnaeth y Concorde cyntaf ei hediad prawf.

Ond yn y cyfamser, roedd costau datblygu wedi codi'n gyflym gyda'r byd yn wynebu ansicrwydd economaidd digynsail wedi'i achosi gan 'argyfwng olew' 1973. O ganlyniad erbyn 1977 roedd cost bob awyren wedi codi i £23 miliwn, ac felly gwnaeth llawer o brynwyr tebygol ddiddymu eu harcheb; allan o 350 Concorde a oedd wedi cael eu cynllunio yn wreiddiol, dim ond 18 a gafodd eu cynhyrchu.

Cychwynnodd hediadau masnachol, gan Air France a British Airways yn gydamserol, ar 21ain mis Ionawr 1976, ymhlith dathliadau a chyhoeddusrwydd brwdfrydig. Ond yr oedd eisoes yn rhy hwyr. Awyrennau llai, cysurus a mwy arferol oedd mewn defnydd ar gyfer y fasnach dorfol a oedd yn cynyddu, a phrisiau tocynnau yn gostwng.

Digwyddodd trychineb ofnadwy. Ar 25ain mis Gorffennol 2000 pan oedd Concorde Air France yn codi oddi ar faes awyr Charles de Gaulle ym Mharis, tarodd yn erbyn darn o ysbwriel metel

nad oedd unrhyw un wedi'i sylw ar y rhedfa. Gwnaeth y metel dreiddio i danc tanwydd a chwympodd yr awyren yn wenfflam; nid oedd goroeswyr. Dyma oedd diwedd y breuddwyd; daeth dyfodol Concorde i ben.

A ydych chi'n ei gofio?

#### Reading as an Exercise

Recall the words you have learned by reading a book. Choose a book for early teenagers, one with not too many pages. As you read you will come across words that you know, you will be revising those words.

If the book is at the right level there will be many sentences you understand and sometimes the context will give you an idea of the meaning of new words. Read your book in conjunction with your classes and gradually you will be more comfortable with issues of grammar.

Let me know how you get on!

## Taith Beicio Velomaritime



### Mikeal ac Yvonne Conq

## Dydd Llun, Mehefin 16 O Benouville i Caen (29 km)

Mae Thierry yn ein tywys at bont hanesyddol Bénouville, a enwyd yn Bont Pegasus er cof am y paratrwpwyr Prydeinig a'i rhyddhaodd ar doriad wawr Mehefin 6, 1944. Pegasus yw'r enw Lladin am y ceffyl asgellog o fytholeg Roeg. Mae hefyd yn arwyddlun Adran yr Awyrlu o baratrwpwyr a gyrhaeddodd mewn tair gleider dan orchymyn yr Uwchgapten Howard. Nhw oedd y rhyddhawyr cyntaf i gamu ar dir Normandi fel rhan o Operation Overlord. Gwnaethpwyd y bont hon yn enwog gan y ffilm "The Long Day". Mae'r amgueddfa gerllaw yn cyflwyno atgofion o ryddhad y rhanbarth. Glaniodd 150,000 o filwyr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

y Cynghreiriaid, gan gynnwys 23,000 o barasiwtwyr, yn Normandi ar Fehefin 6, 1944.



Sword Beach

Cam byr, gwastad, yna dilynion ni'r llwybr beicio i Ouistreham a Thraeth Sword, lle cawson ni bicnic o flaen y gofeb yn coffáu 70 mlynedd ers glaniadau D-Day. Ar Fehefin 6, 2014, daeth digwyddiad coffáu â 25 o benaethiaid gwladwriaethau a llywodraethau ynghyd, yn ogystal â 7,000 o westeion a 650 o actorion a ddaeth a'r digwyddiadau D-Day yn ôl yn fyw. Plannwyd 177 o goed yno er cof am y 177 o aelodau o gomando Kieffer a laniodd yno ar 6/6/1944. Yna gwahoddwyd cynrychiolwyr y gwledydd cynghreiriaid, gan gynnwys Putin, i ginio yn Château de Bénouville!

Yn Colleville-Mongomery, gwelwn gerflun Bill Millin, y pibydd neu'r bag pibydd o'r Alban a arweiniodd y milwyr i'r frwydr ym 1944. Ymhellach ymlaen, rydym yn darganfod gwersyll elfennol ar gyfer ffoaduriaid neu fewnfudwyr sy'n aros yn y gobaith o adael am Loegr. Rydym yn dilyn Camlas Orne ac yn cyrraedd Caen yng nghartref Hortense, Nicolas, a'u tair merch fach swynol. Maent newydd ddychwelyd o daith deg mis trwy ddeunaw o wledydd Ewropeaidd, ar feic a chyda'u teuluoedd. Mae eu rhieni yn hunan-ddysgu eu plant. Rydym yn rhyfeddu. Mae ganddynt gynlluniau tebyg ar gyfer y dyfodol!



## Dydd Mawrth, Mehefin 17

### Caen (9 km)

Mae trydedd ran a'r rhan fyrraf o'n taith yn groesawgar! Mae'n caniatáu inni orffwys ein cyhyrau ychydig. Y bore yma, fe gychwynnon ni ar droed i ymweld â Chofeb Caen, sydd wedi'i leoli 2 km i ffwrdd. I ni, mae hwn yn foment

hanfodol i ddeall cynnydd ffasgiaeth a Natsiaeth yn well, yn arwain at Frwydr Normandi. Wedi'i hadeiladu mewn hen fyncer a wasanaethodd fel safle rheoli Natsiaidd, credwn fod yr amgueddfa'n werth ymweld â hi o leiaf unwaith yn ein bywydau!



Dinister Caen

Dinistriwyd Caen gan y Cynghreiriaid er mwyn chwalu pob system gyfathrebu ac arafu atgyfnerthiadau'r Almaen. Ffodd y boblogaeth rhag y bomio a rhyddhawyd y ddinas ar 9 Mehefin, 1944. Eglurir llawer o themâu mewn modd perthnasol (byrddau arddangos, ffilmiau, ac ati) megis cydweithio a chyfundrefn Vichy, hil-laddiad yr Iddewon a'r Sipsiwn, y gwrthsafiad, y glaniadau, brwydr Normandi, y rhyddhad, y Rhyfel Oer, ailadeiladu Ewrop, cwmp mur Berlin.



Amgueddfa Caen

Yna byddwn yn ymweld â safleoedd hanesyddol eraill yn Caen fel eglwys St Etienne yn Abbaye-aux-Hommes lle cymerodd mwy na 2000 o bobl loches yn ystod bomio 1944, dan arweiniad yr esgob, Mgr des Hameaux. Sefydlwyd yr abat y hwn gan William Goncwerwr, Dug Normandi; mae wedi'i gladdu yno! Yna byddwn yn ymweld ag Abbaye-aux-Dames lle mae'r Frenhines Matilda o Fflandrys, a oedd yn wraig i William Goncwerwr, wedi'i chladdu.

Pan goronwyd William yn Frenin Lloegr ar 25/12/1066, daeth yr iaith Normanaidd yn iaith grym a hi oedd yr iaith a ddefnyddiwyd fwyaf eang mewn llenyddiaeth Saesneg yn yr 11eg a'r 12fed ganrif. Mae Castell Caen, wedi'i leoli ar y copa creigiog, a sefydlwyd hefyd gan William o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Normandi, yn un o'r cestyll caerog mwyaf yn Ewrop. Mae Fabien a Régis yn ein croesawu heno i'r de o Caen.

## Dydd Mercher, Mehefin 18 Caen – Lassy (51 km)



Rydym yn gadael y Vélomaritime ac felly ddim yn parhau â'n taith ar hyd Penrhyn Cotentin. Byddai ein taith wedi bod yn rhy hir. Yn wir, roeddem wedi cynllunio llwybr o tua 900 km mewn 23 diwrnod, sy'n ddigon i ni eleni. I'r de o Caen, rydym yn mynd ar y Vélo Francette, llwybr gwyrdd 30km sy'n cysylltu Ouistreham â La Rochelle. Mae'r llwybr wedi'i adeiladu ar hen reilffordd a redodd ar hyd Afon Orne. Mae'r cynnydd uchder yn wastad, ond rydym unwaith eto'n croesi Suisse Normande, rhanbarth bryniog iawn trwy gefn gwlad Normandi.



Mae'r gymhariaeth â'r Swistir yn gysylltiedig â'r dirwedd garw, gweddillion o'r Massif Armorican sydd wedi erydu. Ar amser picnic, rydyn ni'n sgwrsio ag hen ŵr sydd eisoes wedi ymweld â'r Pays des Abers. Mae hyd yn oed yn ffrind i un o'n cydnabyddion ni! "ffrindiau ein ffrindiau yw ein ffrindiau ni"! Mae'n rhan o grŵp o ymddeoledigion sy'n cael aperitif ar ddiwedd eu taith feicio. Gadewch i ni fwynhau'r amser presennol, mae'r haul yn tywynnu, rydyn ni mewn siâp da!

Yna mae Yvonne yn cyflymu'n gyflymach ac yn gyflymach ac mae'n rhaid i mi bedalu'n galed am 5km i geisio dal i fyny â hi! Ond rydyn ni'n gadael trac gwastad Vélo Francette yn Thury i gyrraedd ein llety am y diwrnod, ac rydyn ni'n llai balch

oherwydd bod y ffordd yn dringo'n serth am 20km. Yn ffodus, ar ôl y bryniau, mae'n amser ar gyfer y disgyniadau!

Mae'n rhanbarth o ddolydd Normandi a gwartheg godro!



Rydym yn cyrraedd, ein hwynebaw'n goch gyda chwys, ym mhentref Lassy, yn ne Calvados, gartre Patricia, a oedd wedi ymweld â'n rhanbarth yn Léon ychydig flynyddoedd yn ôl ac wedi aros gyda ni ar yr achlysur hwnnw. Mae eu croeso cynnes yn gymorth mawr i ni.

## Byd Natur mis Ebrill 2026

gan Patrick Soper

Gallwn ni ddod o hyd i'r fefusen goeg yn ein gwrychoedd ar adeg hwn o'r flwyddyn. Yn aelod o'r teulu mawr sydd yn cynnwys rhosynnau, mae hi'n ffynnu hefyd mewn coetiroedd a lleoedd gwelltog eraill nad ydyn nhw'n rhy wlyb. Planhigyn lluosflwydd brodorol yw hwn i Brydain a rhan helaeth o Ewrop cyfandirol, yn ogystal ag ardaloedd o Asia a Gogledd America.



Mae gan y fefusen goeg blodau gwynion bach sydd yn ymddangos ym mis Mawrth ac yn parhau tan fis Mai. Mae ganddyn nhw pum petal a phan fu'r blodau'n marw maent yn cael eu disodli gan ffrwyth sydd yn fychan, sych, papuraidd ac nid yn fwyadwy. Danheddog yw'r dail ac wedi'u rhannu yn dri rhan neu ddeilios, mae'r planhigyn yn lledaenu drwy risomau.

Mae gan y fefusen wyllt golwg tebyg, ac mae'n hawdd iawn i gymysgu'r ddau blanhigyn. Gyda'r fefusen wyllt mae blodau yn dechrau ymddangos ym mis Ebrill a bydd yn parhau tan fis

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gorffennaf, yn union fel y fefusen goeg, fach a gwynion ydyn nhw gyda phum petal. Ond dyma'r gwahaniaeth: mae gan betalau'r fefusen goeg lle gwag rhwng bob un ohonyn nhw - tra bod petalau'r fefusen wyllt yn agosach at ei gilydd neu yn gorgyffwrdd bron.

Yn annhebyg i'r fefusen goeg, dydy'r fefusen wyllt ddim yn lledaenu drwy risomau o dan y pridd, ond maen nhw'n anfon 'rhedegwyr' ar hyd wyneb y pridd er mwyn creu gwreiddiau ar leoedd newydd gerllaw - yn debyg i'r blodau melyn sydd wedi cymryd meddiant o'm clwt bach o wellt glas, yn ei wneud eu hunain. Hefyd, mae gan fefusen wyllt persawr melys, ond nid y fefusen goeg.

Dechreuodd amaethu mefus yr ardd o'r 1750au ymlaen yn Llydaw pan ddaeth fforiwr yn ôl o Chile gydag ychydig o blanhigion mefus gwyn mawr a oedd yn tyfu yno.

Gwnaeth pum planhigyn oroesi'r daith, a ffynnon nhw yn eu cartref newydd. Ond yn anffodus, allon nhw ddim cynhyrchu ffrwyth oherwydd, fel sylweddolwyd yn hwyrach, roedd pob un ohonyn nhw yn fenywaidd. Cyn bo hir, beth bynnag, llwyddodd arbenigwyr i groesbeillio'r planhigion hyn gydag amrywiad o



fefusen a oedd wedi cael ei darganfod dros Fôr yr Iwerydd yn Virginia, gyda chanlyniadau da iawn.

Gyda gwaith ychwanegol yn Lloegr yn y 19edd ganrif cynhyrchodd hynafiaid yr aeron rhyfeddol rydyn ni'n gallu eu mwynhau heddiw.

## Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

Adroddiad gan Martin Jones



Mae'r geiriau "Cofiwch Dryweryn" wedi'u paentio ar wal ger Llanrhystud yng Ngheredigion wedi dod yn eiconig yng Nghymru ers iddyn nhw ymddangos mewn gwahanol lefydd yn y chwe

degau. Ac rydw i'n siŵr bod pawb yn gyfarwydd â hanes boddi pentref Capel Celyn â ysbrydolodd Meic Stevens i baentio'r geiriau enwog hynny. Un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif oedd y boddi, ac yn ein cyfarfod ar 16eg o Fawrth, cawson ni'r pleser a'r fraint o glywed y stori gan Gwyn Roberts, dyn â chysylltiad cryf â Chapel Celyn - roedd ei fam yn brifathrawes yr ysgol a disgybl answyddogol, bob hyn a hyn, yn yr ysgol oedd Gwyn ei hunan!

O ganlyniad i'r cysylltiad hyn, roedd Gwyn yn gallu dod â'r stori'n fyw. Clywon ni storiâu hyfryd am y pentref a'r plant oedd yn mynychu'r ysgol - er enghraifft, clywon ni sut, ar y diwrnod pan aeth holl drigolion y pentref i Lerpwl i ddadlau yn erbyn y boddi, gorfodwyd i'r swyddfa bost aros ar agor er gwaethaf y ffaith bod neb yn y pentref. A gwelon ni ddetholiad rhyfeddol o luniau o'r pentref cyn y boddi a roddodd i ni fewnwelediad teimladwy i fywyd yng Nghapel Celyn, gan gynnwys llun ingol o fachgen o'r pentref yn mesur pa mor uchel yr oedd y dŵr yn yr argae wedi codi.

Cytunodd pawb yn y gynulleidfa yr oedd y sgwrs yn ddiddorol ac emosiynol fel ei gilydd - diolch yn fawr iawn i Gwyn.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Murton am 19.00 ar yr ugeinfed o Ebrill pan fyddwn ni'n clywed am Y Cymry a Llundain. Croeso cynnes i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

## Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

### 9 Mawrth 2026 – Rod Thomas 'Ar Ffiniau Cerddoriaeth Pop'

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Cawson ni noson hyfryd yn Y Tair Pedol, Cefn Cribwr ac ar Zoom gan Rod Thomas, un o'n haelodau ffyddlon. Roedd o'n siarad am ei brofiad yn nyddiau cyntaf y byd 'pop'.

Cafodd Rod ei eni yn Rhiwbeina ac mae e wedi byw yn Ne Cymru trwy gydol ei oes. Ar lefel bersonol, siaradodd Rod am ei blentyndod hapus a'i briodas lawen â Mary a'u plant. Trydanwr yw crefft Rod er iddo fod, ar un adeg, yn Bostfeistr yn Bryn ger Port Talbot.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Beth bynnag, mae cerddoriaeth wedi bod yn bwysig iawn i Rod o oedran cynnar. Roedd ei dad yn gerddorol ac roedd Rod yn cofio gwyliau teuluol lle byddent yn cystadlu mewn cystadlaethau talent ac yn cael eu gofyn i ganu yn y lle yr oeddent yn aros.

Roedd Rod mewn grŵp skiffle ar y dechrau cyn symud ymlaen i roc a rôl ac wedyn pop. Mwynheuodd Rod gyfansoddi caneuon yn ogystal â chwarae'r gitâr a chanu. Yn y chwedegau, recordiwyd cân Rod, 'Don't Take Your Lovin' Away', gan Kim (Davis) a'i band. Roedd Kim yn act gefnogol ar daith gyda Lulu. Roy Orbison a'r Walker Brothers. Aeth Rod a Mary i'w sioe yng Nghaerdydd pan wnaethon nhw cyfarfod Lulu a Roy. Roedd yn foment falch pan dderbyniodd Rod gopi o'i gân gyntaf â recordiwyd.

Recordiwyd un arall o ganeuon Rod o'r chwedegau gan Tim Andrews. Darlledwyd 'There's Something About Suburbia' ar Radio 1. Canodd hwn i ni ac mae'n parhau i fod yn un o hof gyfansoddiadau Rod.

Soniodd Rod ei fod bob amser yn cyfansoddi ei ganeuon yn Saesneg ond bod llawer ohonyn nhw wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Manteisiodd Rod ar gyfle i ymddangos ar y rhaglen gerddoriaeth Gymreig, Disc a Dawn. Ymunodd â ffrind ac ymddangosodd Rod a Lyndon ar y rhaglen yn aml yn ystod diwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau. Y gân gyntaf canon nhw ar Disc a Dawn oedd 'I Ble Est Ti Neithiwr' a ganodd Rod i ni. Hefyd, canodd Rod Pitar Pan a gyfansoddodd i ganu ei ferch i gysgu. Perfformiodd hyn ar Disc a Dawn a Miri Mawr, rhaglen blant.

Daeth Rod i adnabod nifer o artistiaid poblogaidd fel Dafydd Iwan, Heather Jones, Iris Williams a'r Tebot Piws. Gwnaeth Rod a Lyndon yn dda mewn cystadlaethau fel Cân i Gymru gyda chaneuon a gyfansoddwyd gan Rod ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Recordion nhw EP yn gynnwys 4 o ganeuon Rod yn y Gymraeg. Recordion nhw CD (That Far Off Place) yn 2016 ac mae stori am ei fywyd 'All the Love we Need' ar gael ar Amazon,.

Dros y blynyddoedd mae Rod wedi parhau i gyfansoddi a chanu pryd bynnag bydd cyfle. Gyda rhai o'i ffrindiau mae e wedi ein diddanu ni

yn ein Parti Nadolig dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolch yn fawr i Rod. Roedd yn ddiddorol iawn i wybod mwy am ei yrfa ac i wrando ar ei hoff ganeuon.

Digwyddiad nesaf - Nos Lun 11 Mai am 7 ooyh – Ymweliad â Gweithdy Haearn Cefn Cribwr gyda John a Carole Mason i gofio Iolo Morgannwg.

Os bydd diddordeb gyda chi, rhowch wybod i mi, nestahumphreys@btinternet.com

Mae tudalen Facebook gyda'r Gymdeithas a dyma'r ddolen.

[https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en\\_GB](https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr/?locale=en_GB)

**Os dach chi'n byw yn  
Abertawe  
dewch i'r**

## **Sadwrn Siarad**

**yng nghaffi Sainsburys**

Bob bore dydd Sadwrn am  
10.30 tan 12.00

Dyn ni'n siarad am bob  
math o bethau 'Fanny  
Craddock, Delia Smith, West  
Bromwich Albion, y Swans'  
er engraifft ac mae llawer o  
chwerthin.

Felly dewch i gael hwyl ac, ar  
yr un pryd ymarfer eich  
Cymraeg.

Parcio am ddim am 2 awr!

***You know it makes sense!***

*Diolch Del Boy!*

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

**Geirfa****Harddwch, Hanes a Hud**

Gloyw - shining  
Traethau aur - golden sands  
Pen Pyrrod - Worms Head  
Enaid - soul  
Gweddillion - remains  
Hud - enchantment

**Ruth Connor**

Diddanwr - entertainer  
Bachog - catchy  
Dawnsio gwerin - folk dancing  
Dawns y clocsen - clog dancing  
Argymell - to recommend

**Teisen Ynys Môn**

Picau ar y maen - Welsh cakes  
Triog du - black treacle  
Blawd codi - self raising flour  
Llwy fwrdd - tablespoon  
Iro - to grease

**Pyllau glo Fife**

Domennu slag - slag heaps  
Difwyno - to disfigure  
Llwch glo - coal dust  
Trawsnewid - to transform  
Padlfyrddio - paddle boarding  
Tŵr tŷ olwyn - the wheelhouse tower  
Byrddau hysbysiad - information boards

**Gemau Olympaidd**

Tramor - overseas  
Sglefrio - skating  
Cofrodd - souvenir  
Cloch buwch - cow bell  
Medal efydd - bronze medal  
Tystysgrif - certificate

**Jane Cumming**

Anymwybodol - unconscious  
Bathodyn - badge  
Sicrwydd - certainty  
gwyneb gwag - blank face  
Achlysurol - occasional  
Anghwrtais - discourteous  
Amharchus - disrespectful

Meddygfa - surgery  
Trallwng - Welshpool  
Dynes wallgof - crazy lady

**Pam dw i'n Dysgu**

Holiad - question, enquiry  
Ffaelu - to fail  
Cythruddo - to trouble, to exasperate  
Diystyriol - heedless  
Tynged - fate  
Cynorthwyo - aid, assist  
Cronfa wybyddol - cognitive reservoir  
Amddifadu - to be orphaned  
Goresgyn - to conquer  
Caerau bryn - hill forts  
Cofadeilad - monument, memorial  
Cynrychioli - to represent

**Albwm bob wythnos**

Addunedau - resolutions  
Herio - to challenge  
Diwylliannol - cultural  
Cyflwynydd - presenter  
Uchafbwyntiau - highlights  
Afluniad - distortion  
Y felan - the blues

**Atyniad twristiaid**

Ychwanegu - to add  
Mynedfa - entrance  
Carthffosiaeth - sewerage  
Gostwng - to lower  
Gorlifo - to overflow  
Atyniad - attraction

**Romeo a Juliet**

Caergrawnt - Cambridge  
Tafwys - the Thames  
Bainc - bench  
Pwysleisio - to emphasise  
Bywiog - lively  
Nenfwd - ceiling  
Arloesol - pioneering  
Anfarwol - immortal

**Atgofion Frank**

Daeareg - geography  
Amaethyddiaeth - agriculture

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Chwarel calch - limestone quarry  
 Mwyngloddfa glo - coal mine  
 Cyfagos - nearby  
 Rheoliad - regulation  
 Dioddefu - to suffer  
 Ceffyl a throl - horse and cart  
 Peiriant - machine, engine  
 Wyna - lambing  
 Godro - milking  
 Cyfyngiadau bwyd - food restrictions  
 Gwahardd - to forbid  
 Gweithgareddau - activities  
 Hamdden - leisure  
 Pibell sefyll - standpipe  
 Gellyg - pears  
 Dogni - to ration  
 Gydol oes - throughout (his) life  
 Dwys - intense  
 Cymhwyster - qualification

### **Argyfwng yn y mynyddoedd**

Trylwyr - thorough  
 Argyfwng - emergency  
 Cilfan - lay-by  
 Cytunedig - arranged  
 Anhawster rhagweladwy - foreseen difficulties  
 Tramwyo - to traverse  
 Hunanosodol - self-imposed  
 Atgyfnerthu - to strengthen  
 Cipolwg - a glance  
 Cyfuchlin - contour(line)  
 Unigedd - solitude

### **Ydych chi'n cofio?**

Cyflymder Sain - sound barrier  
 Chwyldroadol - revolutionary  
 Amcangyfrif - to estimate  
 Gweithgynhyrchu - to manufacture  
 Hediad prawf - test flight  
 Digynsail - unparalleled  
 Diddymu - to annul  
 Cydamserol - at the same time  
 Brwdfrydig - enthusiastic  
 Cyhoeddusrwydd - publicity  
 Masnach dorfol - mass market

### **Taith beicio**

Ceffyl asgellog - a winged horse

Mytholeg Groeg - Greek mythology  
 Arwyddlun - emblem  
 Glaniadau - landings  
 Elfennol - primitive  
 Cynghreiriad - confederation  
 Atgyfnerthiad - reinforcement  
 Hil-laddiad - genocide  
 Gwrthsafiad - resistance  
 Glaniad - landing  
 Cwmp mur - fall of the (Berlin) wall  
 Lloches - shelter  
 Gweddillion - remains  
 Cydnabyddion - acquaintances  
 Ymddeolegion - retired people

### **Cymdeithas Gymraeg**

Detholiad - selection  
 Mewnwelediad - insight  
 Ingol - agonising

### **Cymdeithas Hanes**

Cyfansoddi - to compose  
 Act gefnogol - supporting act  
 Darlledu - to broadcast  
 Manteisio - to take advantage